**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CRAFFU GOFAL ARBENNIG CYNGOR GWYNEDD**

**13 Ionawr 2025**

**Cyfarfod Aml-Leoliad: Siambr Hywel Dda a thrwy ZOOM**

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:**

Elwyn Jones (Cadeirydd), Beth Lawton, Eryl Jones-Williams, Sian Williams, Rheinallt Puw, Angela Russell, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams, Elin Walker Jones, Menna Baines, Berwyn Parry Jones, Linda Morgan, Geraint Wyn Parry, Gwynfor Owen, Anwen Jane Davies,

**Swyddogion yn bresennol:**

Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Courtney Leigh Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth a Dinesig).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 4:**

Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor), Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd) Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr) Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Ffion Mai Jones (Uwch Reolwr Gweithredol) Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Adran Addysg), Alison Halliday (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion) Aled Gibbard (Pennaeth Adran Plant dros dro), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol), Ian Jones (Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol)

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972)**

---

**PWNC**

Eitem 4 :CYNLLUN YMATEB I'R ADRODDIAD CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER

---

**PENDERFYNIAD**

1) Nodi'r rhaglen waith

2) Gofyn am adroddiad cynnydd mewn 6 mis ar y rhaglen waith gan gynnwys gwybodaeth am y polisi canu'r gloch a'i weithrediad

3) Gofyn am adroddiad ar y gwaith o sicrhau statws Sir Plentyn Gyfeillgar a dod yn Gyngor Trawma Wybodus

4) Gofyn i'r Cabinet ystyried

- ychwanegu enw cyswllt benywaidd allanol i'r poster rhannu gwybodaeth am bryderon a sicrhau bod manylion cyswllt ar gael ar wefannau ysgolion a gwefan y Cyngor
- rhoi sylw i lais y teulu yn ogystal â llais y plentyn yn ffrwd gwaith 1
- diwygio'r testun o dan y pennawd '2.3 – Archwiliad Estyn o Adran Addysg y Cyngor' ar dudalen 18 y Cynllun Ymateb i gynnwys brawddeg sy'n adlewyrchu y cyd-destun sef serch y ganmoliaeth gan Estyn arestiwyd pennaeth ysgol ychydig fisoedd wedyn
- sicrhau bod hyfforddiant meithrin perthnasoedd amhriodol 'grooming' ar gael i bawb sydd ei angen
- darparu hyfforddiant diogelu arbenigol allanol i aelodau ac i lywodraethwyr
- ychwanegu "lles plant a phobl ifanc" at ddisgrifiad ffrwd gwaith 7 - Cefnogi a Sefydlogi Ysgol Friars
- gohebu gyda Llywodraeth Cymru i ddatgan pryder am y heriau a'r risgiau ynghylch rôl llywodraethwyr ysgolion

---

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 15 |
| Yn erbyn | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Atal | 0 | |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorydd Elin Walker Jones. Nid oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu acni adawodd y cyfarfod.